



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 9FED EBRILL, 2019

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Sion Owen

01286 679665

sionmareduddowen@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 3/4/19)

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

AELODAETH (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
Charles Wyn Jones
Olaf Cai Larsen
Edgar Wyn Owen

Annwen Hughes
Linda Ann Jones
Judith Mary Humphreys
Sedd Wag

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts
Eryl Jones-Williams

Anne Lloyd Jones
Hefin Underwood

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Dewi Owen

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYN

I nodi unrhyw faterion sydd yn faterion brys yn nhyb y Cadeirydd er mwyn eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12/2/19 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

7 - 12

Cyflwyno drafft o'r adroddiad a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym Mai 2019 yn amlinellu'r gefnogaeth sydd wedi ei ddatblygu ac wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau.

6. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG

13 - 14

Adrodd ar wybodaeth Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

7. RHAGLEN WAITH DDRAFFT 2019/20

15 - 16

Cyflwyno drafft o'r rhaglen waith ar gyfer 2019/20 gogyfer sylwadau'r Aelodau.

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 12/2/19

Yn bresennol: Y Cynghorydd Dewi Owen (Cadeirydd).

Y Cynghorwyr: Anwen Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Judith Humphreys, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Edgar Owen, Dewi Wyn Roberts a Catrin Wager.

Swyddogion: Carey Cartwright (Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd) Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau), a Siôn Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Linda Ann Jones

1. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2018 fel rhai cywir.

4. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU

Cyflwynodd y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad ei adroddiad gan roi trosolwg o'r ddarpariaeth dysgu a datblygu i aelodau a nodi'r llwyddiannau a'r heriau a brofwyd. Nododd y pwyntiau canlynol:

- Fod y ddarpariaeth wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn
- Fod y rhaglen dysgu a datblygu yn parhau i esblygu, gan gynnwys eitemau oedd wedi eu cynnig gan aelodau.
- Fod cyfle i aelodau i gynnal sgysiau datblygu personol er mwyn gwyntyllu eu hanghenion, a bod cynllun mentora ar gael.
- Fod presenoldeb wedi bod yn anghyson yn y sesiynau, a bod y gwasanaeth yn ceisio bod yn hyblyg o ran lleoliad ac amser sesiynau ac yn arbrofi gyda thechnoleg.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Fod lleoli'r rhan fwyaf o sesiynau yng Nghaernarfon wedi profi'n rhwystr i aelodau Meirionnydd a nodwyd dyhead i leoli mwy o sesiynau dysgu a datblygu yn swyddfeydd y Cyngor yn Nwyfor a Meirionnydd.
- Fod angen i'r cynllun mentora fod ar gael i aelodau newydd yn syth ar ôl etholiad.
- Oedd unrhyw aelodau oedd wedi eu hadnabod a'u cymhwyso fel mentoriaid wedi cael y cyfle i fentora?
- Fod y sgysiau datblygu personol wedi cael eu gwerthfawrogi.
- Oedd cynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth e-ddysgu?
- Ei fod yn gyffredin ymysg aelodau newydd i fod yn ansicr pa swyddogion i gysylltu â hwy mewn perthynas â materion ward, ac y dylid cynnal hyfforddiant penodol ar strwythurau'r Cyngor.

- Tra bod pwysigrwydd dysgu a datblygu wedi ei gydnabod, fod y ffaith nad oedd mynychu sesiynau yn orfodol yn golygu nad oeddynt yn cael eu blaenoriaethu gan aelodau. Oedd yno unrhyw awgrym y byddai sesiynau hyfforddi yn dod yn orfodol yn y dyfodol?
- Fod sesiynau a gynhaliwyd ar ddiwedd 2018 a dechrau 2019 i drafod gosod cyllideb 2019-20 wedi eu cynnal mewn modd effeithiol, a gwnaed cais i gynnal sesiynau cyffelyb yn rheolaidd.
- Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith a'u cefnogaeth.

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Dysgu a Datblygu'r Sefydliad sylwadau'r Pwyllgor gan ychwanegu ei fod yn ymwybodol fod perthynas mentora wedi ei sefydlu rhwng rhai aelodau, ac mai cyfeiriad y gwasanaeth i'r dyfodol oedd i gynnal mwy o gyfleon dysgu a datblygu trwy ddulliau digidol.

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod nifer o aelodau newydd wedi gwneud yr un sylw ynglŷn â'r dryswch wrth geisio cyfeirio materion ward at y swyddogion priodol, ac y byddai angen cyfarch hynny yn well wrth anwytho aelodau newydd. Awgrymodd y byddai'n fuddiol i Aelodau oedd wedi cael profiadau dysgu a datblygu da i son wrth aelodau eraill a lledaenu'r neges. Ychwanegodd fod gwneud hyfforddiant aelodau yn orfodol wedi cael ei grybwyll mewn dogfennau ymgynghorol ym maes llywodraeth leol, ond nad oedd unrhyw sicrwydd pa ofynion fyddai'n cael eu gosod yn y ddeddfwriaeth derfynol.

5. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ei hadroddiad gan nodi tra bo gofyn statudol ar y Cyngor i alluogi'r aelodau oedd yn dymuno gwneud hynny i gyhoeddi adroddiad blynyddol, nad oedd unrhyw orfodaeth i aelodau unigol i wneud hynny. Gwahoddwyd y Pwyllgor i gynnig eu sylwadau ar yr adroddiadau a'r broses o'u creu.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Fod tynnu ystadegau presenoldeb a manylion gwaith pwyllgorau o'r adroddiad a'i gynnwys mewn dolen yn gam yn ôl.
- Croesawu fod pwyslais cynnwys yr adroddiad ar waith ward yr aelodau gan mai dyna oedd yn bwysig i'r etholwyr.
- Fod angen gwneud y ddolen at yr adroddiadau yn fwy amlwg.
- Nad oedd angen cynhyrchu adroddiadau blynyddol gan y byddai etholwyr aelod cydwybodol yn ymwybodol fod yr aelod yn eu gwasanaethu'n ddiflino.
- Faint o'r cyhoedd oedd yn edrych ar yr adroddiadau?
- Fyddai posib rhoi dolenni at newyddlenni lleol yr aelodau?
- Oedd cost ychwanegol i gynhyrchu'r adroddiadau?

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod y pwyslais wedi newid i'r gwaith ward gan fod manylion diweddaraf presenoldeb ac ati aelodau yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Ychwanegodd fod defnydd tudalen y wefan oedd yn cynnwys yr adroddiadau blynyddol yn cynyddu'n sylweddol wrth i etholiad agosáu. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw gost tu hwnt i amser staff i gynhyrchu'r adroddiadau, a thra byddai'n ymchwilio mewn i rannu newyddlenni ward, byddai'n rhaid i unrhyw ddeunydd fynd trwy brosesau golygyddol y Cyngor cyn eu cyhoeddi trwy'r wefan gorfforaethol.

Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mai un dull ymysg nifer er mwyn cyfathrebu gydag etholwyr oedd yr adroddiadau blynyddol, a bod etholwyr unigol yn derbyn gwybodaeth mewn sawl ffordd wahanol.

5. CYFARFODYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd ei hadroddiad gan nodi fod llwyth gwaith y pwyllgor yn dilyn cylched oedd yn cyrraedd ei uchafbwynt o gwmpas etholiad. Yn y cyfnod rhwng etholiadau nid oedd cymaint o lwyth gwaith ac 'roedd hynny yn cael ei adlewyrchu yn llwyth gwaith pwyllgorau gwasanaethau democritaidd mewn cynghorau eraill. Nododd fod gofyn statudol i'r pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn, ond nid oedd uchafswm a bod angen strwythuro cyfarfodydd y flwyddyn i gyfarch anghenion Gwynedd. 'Roedd trafodaethau ynglŷn â rhesymoli cyfarfodydd hefyd wedi eu cynnal mewn pwyllgorau eraill.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Fod 3 cyfarfod ffurfiol y flwyddyn yn synhwyrol yng nghyfnod canol tymor etholiad.
- Fod angen amseru'r cyfarfodydd fel eu bod yn cael eu cynnal ar yr adegau cywir er mwyn i'r Pwyllgor gyflawni ei bwrpas.
- Fod angen ail afael yn y gwaith o hybu amrywiaeth mewn democratiaeth.
- Rhagwelwyd y byddai mwy o lwyth gwaith yn disgyn ar y Pwyllgor pan fyddai deddfwriaeth llywodraeth leol nesaf y Cynulliad yn cael ei gyhoeddi.
- Fod angen gwerthuso'r nifer o aelodau oedd ar holl bwyllgorau'r Cyngor, yn enwedig o ystyried ei fod yn debygol y byddai'r nifer o aelodau ar Gyngor Gwynedd yn gostwng wedi'r etholiad nesaf.

Mewn ymateb nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd fod croeso i aelodau gynnig eitemau i'r Pwyllgor, yn enwedig os oedd cysylltiad gyda gwasanaethau i aelodau. Byddai cyfle hefyd i'r is-grŵp amrywiaeth i gydweithio gyda'r grŵp prosiect oedd yn gweithio ar gyflawni blaenoriaeth 'Merched mewn Arweinyddiaeth' oedd wedi ei gynnig i Gynllun y Cyngor ar gyfer adolygiad 2019.

Nododd y rheolwr Gwasanaethau Democritaidd y byddai lleihau'r niferoedd o gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor yn arwain at ryddhau amser er mwyn gyrru gwaith is-grwpiau'r Pwyllgor yn eu blaen. Ychwanegodd y byddai'n bosib galw cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor pe byddai'r llwyth gwaith yn teilyngu hynny.

Cynigwyd ac eiliwyd cynnal 3 cyfarfod ffurfiol y flwyddyn o 2019-20 ymlaen

PENDERFYNWYD: Newid nifer cyfarfodydd rhaglunedig y Pwyllgor Gwasanaethau Democritaidd o 4 cyfarfod y flwyddyn i 3.

7. CALENDR CYFARFODYDD Y CYNGOR 2019-20

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd gan y Rheolwr Gwasanaethau Democritaidd, gan gyflwyno fersiwn ddrafft o galendr cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2019-20. Nododd y byddai angen ail-drefnu dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor hwn yn sgil eu penderfyniad blaenorol. Ychwanegodd fod trafodaethau wedi bod yn cael eu cynnal gyda phwyllgorau eraill er mwyn rhesymoli'r nifer o gyfarfodydd, a thra 'roedd y Pwyllgor Safonau wedi cytuno i resymoli nid oedd trafodaethau mewn pwyllgorau eraill wedi aeddfedu digon i fedru dod i benderfyniad ar gyfer calendr 2019-20.

Nodwyd gan aelod o'r pwyllgor fod dyddiad Pwyllgor Harbwr Aberdyfi wedi ei osod y rhy fuan yn yr hydref, ac y dylai gael ei symud i gyfnod hwyrach er mwyn rhoi amser i swyddogion gynhyrchu adroddiad mwy cynhwysfawr ar weithgareddau'r tymor gwyliau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.05pm.

CADEIRYDD

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth
DYDDIAD	9fed Ebrill 2019
PWNC	Adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau
PWRPAS	Cyflwyno drafft o'r adroddiad a fydd i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mai 2019 yn amlinellu'r gefnogaeth sydd wedi ei ddatblygu ac wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau.
AWDUR	Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

1. Cyflwynir isod ddrafft o'r adroddiad sydd i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ym mis Mai 2019. Dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:
 - Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd
 - Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer gofynion y rôl
 - Cynhyrchu adroddiad, o leiaf pob blwyddyn, i'w chyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt cefnogaeth i Aelodau.
2. Mae'r adroddiad ychydig yn wahanol eleni – yn fwy cryno. Mae'n canolbwyntio ar y datblygiadau a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn yn hytrach nag amlinellu'r holl gefnogaeth sydd ar gael i aelodau, sy'n gallu bod yn ail adroddus.
3. Fe welwch o'r adroddiad drafft fod rhai darnau yn parhau i fod angen eu llenwi, a bydd angen diweddarau rhai elfennau yn sgil trafodaethau eraill.
4. Rwy'n parhau i bwysleisio fod yn rhaid wrth ddeialog agored gyda chi fel Aelodau etholedig er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth a ddarperir i chi yn ateb eich gofynion ar gyfer y rôl ac felly rwy'n eich annog i gysylltu gyda mi neu'r Cadeirydd i godi unrhyw faterion.
5. Yn ogystal, dymunaf ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor am eich cefnogaeth dros y misoedd diwethaf ac edrychaf ymlaen i gyd-weithio gyda chi ymhellach dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.



ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH (2018-19)

- Cefnogaeth i Aelodau
Etholedig Gwynedd



RHOI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I BOPETH RYDYM YN EI WNEUD • PUTTING THE
PEOPLE OF GWYNEDD AT THE CENTRE OF EVERYTHING WE DO

RHAGAIR

Mae adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau etholedig er mwyn cyflawni y rôl yn rhan greiddiol o fy ngwaith i, ac mae mewnbwn a chefnogaeth aelodau y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn fy nghynorthwyo i gyda'r gwaith pwysig yma.

Yn dilyn blwyddyn gyntaf brysur iawn yn 2017/18 yn sgil etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2017, yn annatod mae 2018/19 wedi bod rhywfaint mwy sefydlog, gyda chyfle i adlewyrchu rhywfaint ar y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig. Unwaith eto eleni, rwy'n annog unrhyw aelod sydd eisiau trafod y gefnogaeth sydd ar gael i gysylltu gyda mi neu Gadeirydd neu aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yn ddi-oed.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol i Aelodau Cyngor Gwynedd. Mae'r adroddiad ychydig yn wahanol eleni, yn canolbwyntio ar ddatblygiadau 2018/19 a'r hyn sydd i'w ddatblygu yn 2019/20 yn hytrach nag amlinellu'r holl ystod cefnogaeth sydd ar gael.

Unwaith eto, rwy'n diolch yn fawr i bawb am eu mewnbwn ac yn edrych ymlaen at gydweithio dros y blynyddoedd i ddod.



A handwritten signature in black ink that reads "Iwan Owen". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth,
Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Beth sydd wedi digwydd yn 2018/19?

Rydym yn parhau i fod yn darparu'r holl gefnogaeth arferol, sy'n cynnwys:

- ✓ Trefnu, cyhoeddi a chofnodi cyfarfodydd y Cyngor – yn amserol ac i safon uchel yn gyson. Mae 97% o raglenni yn cael eu cyhoeddi yn electroneg 5 diwrnod gwaith clir gan y Cyngor.
- ✓ Cydymffurfio gyda gofynion Panel annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol gan sicrhau talu Cyflogau a threuliau aelodau yn amserol.
- ✓ Cefnogaeth wleidyddol i'r grwpiau gwelidyddol cymwys
- ✓ Adolygu'r cydbwysedd gwleidyddol yn unol â'r gofyn
- ✓ Gwe-ddarlledu yn unol â'r rhaglen waith
- ✓ Cynnal a chefnogi rhaglen hyfforddiant eang ar gyfer yr holl aelodau, gan gynnwys sesiynau 1-1 pan fo'r angen
- ✓ Cynnig sesiynau 1-1 i aelodau i drafod eu datblygiad personol
- ✓ Cefnogaeth Technoleg Gwybodaeth trwy'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth
- ✓ Symleiddwyd ein proses o greu adroddiadau blynyddol gan aelodau, a gobeithio y bydd cynnydd pellach eto eleni

Yn ogystal, hoffwn dynnu eich sylw at y prosiectau penodol a nodir isod:

Ymgynghori gydag aelodau etholedig:

Dros gyfnod yr haf 2018 gofynnwyd i'r holl Aelodau am eu barn ynghylch y gwasanaeth a ddarperir gan y Tîm Gwasanaethau Democratiaeth, yn ogystal a beth ellid ei wneud i wella. Cafwyd nifer o ymatebion, gyda nifer yn datgan eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth, yn arbennig y cymorth a'r gefnogaeth gan aelodau'r Tîm.

Rhodddwyd nifer o syniadau ynghylch beth ellir ei wella hefyd. Un o'r materion oedd yn cael mwyaf o sylw oedd cymorth i aelodau newydd. Mae'r materion hyn oll wedi eu nodi, a byddant yn sicr o fod yn bwydo i mewn i'r gwaith paratoi ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf. Yn ogystal, nodwyd llifydd i wella gyda'r Porth Aelodau (gweler isod), sylwadau ynghylch hyfforddiant (gweler isod) a sylwadau ynghylch y ddarpariaeth TG (gweler isod)

Symud at Office 365:

Daeth i'r amlwg fod rhywfaint o rwystredigaeth yn parhau gyda'r ddarpariaeth Technoleg Gwybodaeth ar gyfer Aelodau etholedig, ac o wrando ar eich negeseuon, bu newid yn y ddarpariaeth er mwyn cwrdd ag anghenion.

Wrth symud i ddarpariaeth Office 365, mae Aelodau bellach yn gallu cael mynediad i'w cyfrif ebost aelod ac unrhyw ddogfennaeth ganddynt o unrhyw leoliad. Mae nifer wedi adrodd fod gallu cael

cipolwg ar eu ebyst ar eu ffonau symudol wedi gwneud y byd o wahaniaeth iddynt ac yn llawer iawn rhwyddach i ateb unrhyw ymholiad byr yn sydyn. Mae hefyd wedi galluogi aelodau sy'n gweithio i gael mynediad i'w cyfrif Cynghorydd o unrhyw ddyfais arall, yn ogystal a gallu defnyddio'r peiriant Surface yn ystod cyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor.

Yn amlwg, mae datblygiadau ym maes Technoleg yn symud yn hynod gyflym, ac felly byddwn yn parhau i roi sylw i'r maes yma. Os oes Aelod yn dymuno unrhyw gymorth pellach, cysylltwch gyda'r Tîm Technoleg Gwybodaeth ar gyfer materion technegol neu'r tîm hyfforddiant ar gyfer unrhyw gymorth wrth ddefnyddio'r teclynnau.

Porth Aelodau:

Mae defnydd o'r Porth Aelodau yn parhau yn isel. Rydym wedi ceisio parhau i godi ymwybyddiaeth aelodau o'r cynnwys, ond, unwaith eto, trwy wrando ar sylwadau aelodau, rydym yn credu fod yn rhaid newid trywydd gyda'r ddarpariaeth yma. Rydym ar ddeall gennych fod y wybodaeth sy'n cael ei ddal ar y porth yn wybodaeth sy'n angenrheidiol i chi fel aelodau (yn arbennig unrhyw aelod newydd), ond mai'r ffordd o gyrraedd y wybodaeth sy'n drwsgwl. Rydym yn gweithio ar symleiddio hyn yn gyfredol gan anelu i gyflwyno datrysiad i chi yn 2019/20.

Adolygu trefniadau craffu:

Sefydlwyd y trefniadau craffu newydd yn Mawrth 2017, gan gychwyn gweithredu'r model newydd o Fai 2017 ymlaen. Bryd hynny addawyd y byddem yn adolygu'r ddarpariaeth yn ystod 2018/19, a bu i'r gwaith hwnnw gychwyn yn Ionawr 2019. Mae'r gwaith yn parhau i fynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd y gweithgor yn adrodd ar ganlyniadau y gwaith yn fuan.

Sesiynau Gwybodaeth Arbennig:

Mae rhannu gwybodaeth gywir yn amserol yn her y mae'n rhaid i'r Cyngor ei hwynebu, ac mewn ymgais i geisio rhannu gwybodaeth gyda'r holl aelodau cynhaliwyd nifer o sesiynau rhannu gwybodaeth ar bynciau penodol eleni. Roedd rhai o'r sesiynau wedi eu hadnabod trwy'r drefn craffu, ble roedd ymdeimlad fod gwybodaeth am y maes yn berthnasol i'r holl aelodau ac felly trefnwyd sesiynau penodol ee diweddariadau gyda'r cais TwF economaidd Gogledd Cymru, datblygiadau byd Addysg a'r hyn oedd yn cael ei wneud i baratoi am Brexit. Yn ogystal, trefnwyd sesiynau penodol gogyfer yr arbedion, sesiynau a gynhaliwyd ar draws y Sir i'r holl aelodau.

Trefniadau anwytho a chefnogaeth i'r Aelodau Cabinet newydd

Rydych yn ymwybodol fod dau Aelod Cabinet newydd wedi eu penodi o Ebrill 1af 2019. Rydym wedi datblygu rhaglen anwytho ar gyfer yr aelodau newydd yn sgil siarad gydag aelodau cabinet eraill. Rydym yn llongyfarch y ddau aelod ac yn dymuno yn dda iddynt yn eu rolau newydd.

Rhesymoli niferoedd cyfarfodydd

Wrth adolygu gwaith y pwyllgor ers Mai 2017, daeth Aelodau'r pwyllgor i gasgliad mai doeth fyddai lleihau'r niferoedd cyfarfodydd a defnyddio'r amser i ddatblygu cefnogaeth i aelodau. Yn sgil hyn, bydd y pwyllgor yn cyfarfod dair gwaith yn hytrach na phedair gwaith yn ystod 2019/20.

Beth sydd ar y gweill ar gyfer 2019/20?

Fodd bynnag, nid da lle gellir gwell. Mae lle i wella yn barhaus, ac mae'r cynlluniau isod ar y gweill o ran gwella'r ddarpariaeth i Aelodau Etholedig yn ystod 2019/20.

Prosiect Amrywiaeth:

Rydym yn parhau yn ymwybodol nad yw aelodaeth y Cyngor yn adlewyrchu trawsdoriad poblogaeth y Sir. Mae is-grwp o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi ei sefydlu eisoes i geisio edrych ar ffyrdd o annog mwy o bobl ifanc, merched, yr anabl a rhai o gefndir lleiafrifol i ystyried sefyll i fod yn Gynghorwyr. Bydd y gwaith yma yn bwrw ymlaen yn ystod 2019/20.

Porth Aelodau:

Nodwyd eisoes nad yw defnydd y porth yn uchel, ond fod aelodau wedi nodi fod y wybodaeth arno yn ddefnyddiol iawn. Gan ein bod yn ymwybodol fod y platform ar gyfer defnyddio'r porth aelodau ddim yn hawdd i'r defnyddwyr, y bwriad yw edrych ar sefydlu platform gwahanol sy'n llawer haws ei ddefnyddio.

Technoleg Gwybodaeth:

Nid yw'r byd technegol yn aros yn llonydd yn hir. Diau na fydd ystyriaethau technegol i'w dwyn i'n sylw yn ystod y flwyddyn.

Fel a nodais uchod, mae llawer o'r hyn sydd angen ei ddatblygu o ran cefnogaeth ar gyfer Aelodau Etholedig yn eich dwylo chi. Yn hyn o beth, gofynnaf i chi gysylltu os oes gennych unrhyw fater sydd, yn eich barn chi angen sylw neu am wella'r ddarpariaeth sydd ar gael i'r holl aelodau.

Eitem 6

CYFARFOD	PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH
DYDDIAD	9 EBRILL, 2019
PWNC	CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG
PWRPAS	Adrodd ar wybodaeth Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democraidaidd

CEFNDIR

1. Mae adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol bellach wedi ei chyhoeddi (Chwefror 2019). Bu i Aelodau'r Pwyllgor drafod a chyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad drafft gan y Panel yn eu cyfarfod ar y 25ain o Hydref 2018. Bydd adroddiad y Panel yn cael ei roi ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20.

[Adroddiad blynyddol 2019-20](#)

- 1.2 Mae'r prif bwyntiau o'r adroddiad fel a ganlyn:

- Cynnydd o £268 yn y cyflog sylfaenol i'r holl Aelodau etholedig (codi o £13,600 i £13,868 – cyfateb i 1.97%) o Ebrill 2019. Gweler fod y Panel yn nodi yn eu hadroddiad y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad, gan nodi fod *“cyflogau aelodau'r meinciau cefn wedi aros yn gymharol llonydd dros y 9 mlynedd ddiwethaf ac, mewn termau real, wedi syrthio yn ôl yn sylweddol yn ôl unrhyw fesur rhesymol”*
- Cynyddu yng nghyflogau Arweinydd, Dirprwy Arweinydd ac Aelodau'r Weithrediaeth o £800 (bydd hyn yn cynnwys y £268 sy'n y cyflog sylfaenol i'r holl aelodau). Noda'r Panel *“Er gwaethaf y duedd o gynnydd bach yn lefelau'r uwch gyflogau ers 2012, sydd wedi bod yn is nag unrhyw fesur chwyddiant, mae'r uwch gyflogau yn parhau i fod yn is na'r hyn a welwyd deng mlynedd yn ôl.”*
- Mae'r uwch gyflogau eraill yn derbyn y cynnydd i'r tâl sylfaenol yn unig fel a ganlyn:
 - Cadeiryddion Pwyllgorau (£22,568)
 - Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf £22,568)
- Mae'r cyflog ar gyfer y Pennaeth Dinesig wedi ei osod ar £22,568 a £17,568 i ddirprwy bennaeth dinesig

- 1.3 Fel sy'n cael ei adrodd yn flynyddol, Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol sydd yn gosod y lefelau cyflog yn annibynnol ar gyfer holl Gynghorwyr Cymru.

- 1.4 Os yw Aelod Etholedig yn penderfynu peidio derbyn y cyflog, mae'n angenrheidiol iddo/iddi ddatgan hynny yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gweler cymal 3.19 sy'n nodi fel a ganlyn:

"Rhaid talu'r cyflog a'r costau sydd wedi'u pennu yn llawn i bob aelod, oni bai bod unigolyn wedi rhoi gwybod yn ysgrifenedig i swyddog priodol yr awdurdod ei fod wedi dewis yn annibynnol ac yn wirfoddol ei fod am ildio'r holl daliad neu unrhyw elfen ohono. Mae'n hanfodol bod tryloywder yn y broses hon fel bod unrhyw awgrym posibl bod aelodau'n cael eu rhoi dan bwysau i fynd heb rywfaint o'r cyflogau'n cael ei osgoi."

Ad-dalu Costau Gofal

- 1.5 Mae pwyslais wedi ei nodi unwaith eto eleni gan y Panel ar i aelodau etholedig cymwys hawlio'r ad-daliadau ar gostau gofal y mae ganddynt hawl iddo.

Nodir "O'r trafodaethau yn ystod ein hymweliadau â chynghorau mae'n amlwg mai ychydig iawn o aelodau sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yn y fframwaith i ad-dalu costau gofal. Ymddengys fod rhai aelodau'n dal i fod yn gyndyn o hawlio'r cyfan y mae ganddynt hawl iddo i gefnogi eu gwaith, oherwydd pryderon ynghylch y cyhoeddusrwydd anffafriol y gall hyn ei ddenu (gweler Atodiad 4 am y dewisiadau cyhoeddi). Erfyniwn ar Bwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd i gymryd camau i annog mwy o aelodau i ddefnyddio'r elfen hon o'n fframwaith a hwyluso'r broses o'i hawlio fel nad yw'r aelodau dan sylw'n profi anfantais ariannol."

ARGYMHELLIAD

- 1.6 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth uchod.

Eitem 7

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd
DYDDIAD	9fed Ebrill 2019
PWNC	Rhaglen waith (ddrafft) 2019/20
PWRPAS	Cyflwyno drafft o'r rhaglen waith ar gyfer 2019/20 gogyfer sylwadau'r Aelodau.
AWDUR	Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd

1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar y 12fed o Chwefror 2019 bu i'r aelodau benderfynu cynnal tri cyfarfod o'r pwyllgor yn flynyddol er mwyn sicrhau y defnydd gorau o amser ac adnoddau.
2. Wrth ystyried y newid, nodwyd yr angen i gynllunio'r amser yn synhwyrol, ac felly i'r perwyl hwn, cyflwynir raglen waith ddrafft isod er ystyriaeth y pwyllgor.
3. Rwy'n pwysleisio yn barhau ar aelodau i adrodd ar bryderon am y gefnogaeth a roddir i chi yn eich rôl, neu yn wir syniadau am sut y gellir gwella. Gellir adrodd wrthyf fi neu Gadeirydd y pwyllgor fel y gellir eu hystyried ymhellach.
4. Noder fod eitem benodol wedi ei chynnwys ar y rhaglen isod ar gyfer cyfarfod 27ain o Fehefin 2019 i drafod materion yn codi gan aelodau.
5. O edrych ar yr eitemau sydd wedi eu cyflwyno i bwyllgor ers mis Mai 2017, argymhellir y gellir ystyried y prif eitemau a ganlyn ar gyfer blwyddyn 2019/20.

Cyfarfod 27/06/19

- Ethol Is-Gadeirydd
- Materion yn codi gan aelodau *
- Gwe-ddarlledu

Cyfarfod 19/11/19

- Ymgynghoriad Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol
- Adroddiadau blynyddol aelodau etholedig (adolygu sut aeth a pharatoi at y rownd nesaf)
- Porth Aelodau – diweddariad ar y datblygiad

Cyfarfod 09/04/19

- Adroddiad blynyddol Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth
- Adroddiad terfynol Panel Annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol
- Calendr blynyddol y Cyngor
- Hyfforddiant Aelodau
- Cyfweiliadau datblygiad personol

Mae rhai materion nad ydynt wedi eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond rhagwelir y bydd y materion isod gerbron:

- Datblygiadau yr is-grŵp amrywiaeth
- Technoleg Gwybodaeth
- Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth yn ymwneud â Llywodraeth Leol